Cynllun Taliadau Gohiriedig

Pam mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi tâl am eu gwasanaethau?

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol godi incwm er mwyn helpu i dalu am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Mae goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm wrth symud i mewn i gartref gofal. Er bod y ffeithlen yn nodi manylion ynglŷn â sut caiff y costau am eich gwasanaethau gofal preswyl a gofal nyrsio eu cyfrifo, cofiwch mai er gwybodaeth yn unig y caiff y manylion yma eu darparu. Peidiwch â dibynnu ar y ffeithlen fel datganiad cyflawn o'r gyfraith.

Mae manylion rhai sefydliadau, sy'n gallu cynnig cyngor annibynnol, i'w gweld ar ddiwedd y ffeithlen.

Mae Rheoliadau a Chodau Ymarfer o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn pennu'r rheolau o ran codi tâl. Mae hyn yn golygu efallai y bydd angen i'r Cyngor ofyn i chi gyfrannu'n ariannol tuag at y gofal rydych chi'n ei gael.

Cefndir

Mae Deddf 2014 yn amlinellu'r gofynion newydd ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â gohirio taliadau ar gyfer unigolion sydd ag anghenion sydd wedi'u hasesu ac y mae modd eu diwallu mewn cartref gofal.

O ganlyniad i hyn, ar ôl 6 Ebrill 2016, rhaid i'r Cyngor gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i bawb sy'n symud i mewn i gartref gofal, neu sy'n byw mewn cartref gofal eisoes, ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Bydd gofyn i gytundebau taliadau gohiriedig a gaiff eu rhoi ar waith gan y Cyngor ar 6 Ebrill 2016, neu ar ôl hynny, ateb gofynion Deddf 2014.

Bydd cytundebau taliadau gohiriedig a gafodd eu cytuno rhwng y Cyngor ac unigolyn, neu'i gynrychiolydd ariannol, cyn 6 Ebrill 2016 yn parhau i fod yn amodol ar amodau a thelerau'r cytundeb sy'n bodoli eisoes.

Drwy lofnodi cytundeb taliadau gohiriedig, bydd modd i unigolyn, y mae ei gartref wedi'i ystyried yn rhan o asesiad ariannol, gytuno i dalu am ei ofal (naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl) ar ddyddiad hwyrach. Caiff hyn ei gytuno fel bod dim angen i'r unigolyn werthu ei eiddo yn syth ar ôl symud i mewn i gartref gofal. Drwy ohirio'r costau yma, bydd modd helpu unigolyn i osgoi'r angen i werthu ei gartref ar amser sydd, o bosibl, yn heriol (neu hyn yn oed yn argyfwng) iddo ef a'i deulu wrth iddo symud i mewn i gartref gofal.

Beth yw'r Meini Prawf er mwyn manteisio ar Daliadau Gohiriedig?

O ganlyniad i hyn, **rhaid** i'r Cyngor gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i bawb sy'n symud i mewn i gartref gofal, neu sy'n byw mewn cartref gofal eisoes, ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Yn gryno, dyma'r unigolion sydd dan sylw:

- rhywun sydd wedi'i asesu gan y Cyngor fel unigolyn sydd ag anghenion cymwys a ddylai gael eu diwallu mewn cartref gofal.
- rhywun sy'n berchen ar/sydd â budd ariannol mewn eiddo y mae e'n ei ddefnyddio fel ei unig gartref neu ei brif gartref.
- rhywun y mae gofyn iddo, neu y bydd gofyn iddo, dalu am ofal preswyl.
- rhywun sy'n deall telerau ac amodau'r cytundeb taliadau gohiriedig, ac sy'n cytuno â nhw.

Does dim rhaid i'r Cyngor gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i'r unigolion hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, oni bai eu bod nhw hefyd yn bodloni'r amodau canlynol:

- Bod gwerth buddiant yr unigolyn yn yr eiddo mae'n byw ynddo fel ei unig gartref neu'i brif gartref, a chyfanswm gwerth ei asedau cyfalaf, ac eithrio ei gartref, yn llai na'r cyfyngiad cyfalaf uchaf. (y cyfyngiad cyfalaf a gafodd ei bennu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 yw £50,000)
- Bod y Cyngor yn fodlon bod gan yr unigolyn fuddiant yn yr eiddo mae e'n byw ynddo, neu'r eiddo roedd e'n arfer byw ynddo
- Bod asesiad wythnosol yr unigolyn (*wedi'i gyfrifo o dan Bolisi Codi Tâl y Cyngor)* ddim yn ddigonol er mwyn talu'r holl gostau am lety preswyl mewn cartref gofal

- Bod yr unigolyn yn cytuno'n llawn â'r holl amodau a thelerau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb taliadau gohiriedig a gafodd ei gynnig
- Bod y Cyngor wedi cael caniatâd unrhyw un arall sydd, ym marn y Cyngor, â buddiant yn yr eiddo ac a fyddai, o bosibl, yn atal y broses o werthu'r eiddo neu adennill unrhyw daliadau sydd wedi'u gohirio
- Bod modd i'r Cyngor greu tâl ar gyfer yr eiddo y mae gan yr unigolyn fuddiant ynddo, a bod hynny'n blaenoriaethu unrhyw fuddiant neu dâl arall sydd ynghlwm â'r eiddo.
- Bod yr eiddo wedi'i gofrestru â'r Gofrestrfa Tir.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Yn rhan o feini prawf y Cyngor ar gyfer gwasanaethau gofal, byddwn ni'n rhoi ffurflen asesiad ariannol i chi, ynghyd â ffurflen caniatâd i rannu gwybodaeth a thaflenni gwybodaeth am newid ar gyfer gofal.

Yn ystod y rhan yma o'r broses, byddwn ni hefyd yn nodi a ydych chi'n berchen ar eiddo ai peidio. Efallai y bydd angen ystyried hyn yn rhan o'r broses asesu ariannol. Os dyna'r achos, bydd eich aseswr gofal yn rhoi taflen wybodaeth a Ffurflen Gais am Daliadau Gohiriedig i chi. Rhaid i bob cais am gytundeb taliadau gohiriedig gael ei wneud ar ffurflen gais am daliadau gohiriedig safonol y Cyngor, a rhaid iddyn nhw gael eu llofnodi neu'u cadarnhau gan yr unigolyn neu'i gynrychiolydd cyfreithiol. Bydd modd cael gafael mewn fformatiau eraill yn ôl yr angen.

Dylai'r ffurflen gais gael ei dychwelyd i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar ddiwedd y daflen wybodaeth yma o fewn 15 diwrnod ar ôl iddi hi ddod i law. Y nod yw llunio cytundeb terfynol o fewn 12 wythnos o anwybyddu'r eiddo, neu o fewn 12 wythnos o gyswllt cyntaf yr unigolyn â'r Cyngor.

Bydd gofyn i chi gyflawni Asesiad Ariannol

Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am gytundeb taliadau gohiriedig wynebu asesiad ariannol (o dan Bolisi Codi Tâl Preswyl y Cyngor), a hynny er mwyn penderfynu faint o arian y mae modd iddyn nhw gyfrannu at eu costau gofal o'r incwm y mae modd iddyn nhw gael gafael arno. Y diffyg ariannol rhwng eu cyfraniad wythnosol a chost lawn y llety preswyl fydd y swm y mae modd ei gynnwys yn y cytundeb taliadau gohiriedig.

Mae modd i unigolyn ddewis cadw llai o'r isafswm incwm priodol pe hoffai e wneud hynny. Efallai y bydd hyn o fudd i'r unigolyn, gan y bydd e'n cyfrannu rhagor tuag at ei gostau gofal o'i incwm ei hun. Bydd hyn yn lleihau'r swm mae e'n ei ohirio. Serch hynny **rhaid** i'r unigolyn fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniad yma. Fydd y Cyngor ddim yn gofyn iddo e wneud hyn.

Os bydd unigolyn yn penderfynu rhentu ei eiddo yn ystod y cytundeb, bydd y Cyngor yn caniatáu iddo gadw canran o unrhyw incwm rhent sy'n dod i law. Caiff y swm ychwanegol ei gynnwys yn ei gyfraniad asesiedig.

Penodi rhywun i weithredu ar eich rhan

Does dim modd i'r Cyngor gefnogi cais am gytundeb taliadau gohiriedig os bydd rheswm dros amau galluedd* defnyddiwr y gwasanaeth i lofnodi'r gytundeb. Serch hynny, mae modd gwneud cais am gytundeb taliadau gohiriedig ar ran oedolyn swydd wedi'i asesu yn rhywun sydd â diffyg galluedd. Rhaid i rywun sydd â hawl cyfreithiol i'w gynrychioli wneud hyn, hynny yw, rhywun sydd â grym atwrnai neu ddirprwy ariannol ac eiddo o dan Y Llys Gwarchod.

**Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn egluro bod galluedd yn ymwneud yn benodol â'r penderfyniad. Mae hyn yn golygu y bydd angen asesu galluedd yr unigolyn mewn perthynas â'r penderfyniad mae e'n ei wynebu. Dylai'r Cyngor beidio â gwneud unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â galluedd unigolyn, neu grŵp o unigolion.*

Faint o arian y mae modd ei ohirio?

Mewn egwyddor, bydd modd i'r unigolyn ohirio ei holl gostau gofal, yn amodol ar unrhyw gyfraniad y mae ei asesiad ariannol wedi nodi bod gofyn iddo ei dalu tuag at y gost yma o'i incwm personol. Mae modd gohirio taliadau ar gyfer:

- 100% o'r costau gofal sy'n ddyledus gan yr unigolyn, ac eithrio unrhyw swm y mae gofyn iddo ei dalu tuag at y costau yma o'i incwm asesadwy.

- Os bydd yr unigolyn yn gofyn am ohirio swm llai, yna bydd y swm y mae gofyn iddo ei dalu hefyd yn llai.

Bydd y Cyngor yn ystyried p'un a oes modd i unigolyn ddarparu sicrwydd digonol ar gyfer y swm gohiriedig sydd wedi'i gytuno (hynny yw, hyd tebygol y gohiriad, costau rhagweladwy a sut y mae modd i anghenion gofal a chostau gynyddu dros amser a'r ecwiti sydd ar gael er mwyn ad-dalu'r swm.)

Bydd yr unigolyn wedi nodi y byddai'n well ganddo fynd i gartref gofal sy'n costio mwy na chyfradd arferol y Cyngor ar gyfer y math o gartref gofal sydd ei angen arno. O dan rai amgylchiadau fel hyn, bydd y cartref gofal yn codi tâl ar yr unigolyn, neu ar drydydd parti, am y gost ychwanegol sydd ynghlwm â hyn.

Pan fydd hyn yn digwydd, a phan fydd unigolyn yn gofyn i'r gost ychwanegol gael ei chynnwys yn y swm a gaiff ei ohirio, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried p'un a yw'r cyfanswm y mae'r unigolyn yn gwneud cais am ei ohirio yn briodol mewn perthynas â gwerth y sicrwydd a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer y cytundeb.

Cynaliadwyedd y Taliad Gohiriedig

Wrth benderfynu ar swm y mae modd ei ohirio, bydd angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod y trefniant yma yn gynaliadwy. Bydd y ffactorau sydd angen i'r Cyngor eu hystyried ar ôl derbyn y ffurflen gais yn cynnwys y canlynol:-

- Hyd tebygol y cyfnod pan fydd yr unigolyn yn awyddus i roi'r cynllun gweithredu ar waith
  (os yw e'n bwriadu ei ddefnyddio fel benthyciad pontio)
- Yr ecwiti sydd ar gael
- Yr hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gofal yn y dyfodol a
- Hyd y cyfnod pan fydd modd i'r unigolyn ohirio ei gostau gofal

Caiff gwerth yr eiddo ei drafod cyn i unrhyw gytundeb gael ei lofnodi. Mae modd gwneud cais am werthusiad annibynnol, ond rhaid i'r unigolyn dalu am hyn, yn ogystal ag unrhyw gostau a gaiff eu codi gan y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r swm a gaiff ei ohirio ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod e ddim yn uwch na'r cyfyngiad o ran ecwiti.

Gwrthod cais am Daliad Gohiriedig

Bydd y Cyngor yn gwrthod unrhyw gais am gytundeb taliadau gohiriedig o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd unigolyn neu'i gynrychiolydd wedi methu â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i brosesu'r cais; neu
- dydy'r meini prawf ddim wedi'u bodloni;
- does dim modd darparu sicrwydd digonol neu does dim modd i'r Cyngor gael caniatâd rhywun arall sydd â diddordeb yn yr eiddo er mwyn codi tâl yn ei erbyn, neu, does dim modd sicrhau blaenoriaeth neu godi tâl yn gyntaf yn erbyn yr eiddo

- mae cais am daliad gohiriedig wedi'i wneud ar gyfer unigolyn sydd wedi'i asesu fel rhywun sydd â diffyg gallu i lofnodi cytundeb taliadau gohiriedig lle does gan yr unigolyn ddim cynrychiolydd a does dim modd penodi dirprwy. (O dan yr amgylchiadau yma, yn niffyg dim arall, efallai y bydd y Cyngor yn ystyried gwneud cais i'r Llys Gwarchod ddod y ddirprwy ariannol ar yr unigolyn).
- dydy defnyddiwr y gwasanaeth ddim yn cytuno â thelerau ac amodau'r cytundeb taliadau gohiriedig. Er enghraifft, efallai bydd hyn am fethu â bodloni amod bod yr unigolyn yn yswirio'r eiddo ac yn gofalu ei fod mewn cyflwr da.
- os dydy'r eiddo ddim wedi'i gofrestru.
- mae cyfalaf yr unigolyn, ar wahân i werth yr eiddo, yn uwch na'r cyfyngiad cyfalaf o £50,000, neu
- mae incwm wythnosol asesiedig yn ddigonol er mwyn talu eu costau gofal, felly mae modd iddo dalu cost llawn y llety preswyl heb fod angen cytundeb.

O dan unrhyw amgylchiadau pan fydd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer taliadau gohiriedig ddim yn cael eu bodloni, bydd y Cyngor yn ystyried natur y diffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r meini prawf uchod ac yn ystyried a ddylai e arfer ei ddisgresiwn er mwyn cynnig cytundeb taliadau gohiriedig.

Pan fydd y Cyngor yn gwrthod cais am gytundeb taliadau gohiriedig, bydd e'n darparu eglurhad ysgrifenedig o'i resymau dros wneud hynny i'r ymgeisydd neu i'r sawl sy'n ei gynrychioli. Yn ogystal â hynny, bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth am yr hawl i apelio yn erbyn y pendefyniad.

Sicrwydd

Rhaid darparu sicrwydd priodol ar gyfer y swm sydd wedi'i ohirio. Mae hyn yn cynnwys costau gofal yn ogystal ag unrhyw gostau cysylltiedig o ran llog neu ffioedd gweinyddol, sydd hefyd wedi'u gohirio. Os caiff y meini prawf eu diwallu, bydd y Cyngor yn derbyn Pridiant Cyfreithiol ar gyfer y Cyngor dros yr eiddo y mae'r unigolyn yn berchen arno (naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ac yn ei ddefnyddio fel ei unig gartref neu'i brif gartref, fel sicrwydd digonol.

Bydd y Cyngor yn cael caniatâd ysgrifenedig i ddiogelu'r swm sydd wedi'i ohirio drwy Bridiant Cyfreithiol ar gyfer y Cyngor gan bob perchennog, neu'u cynrychiolwyr, ac unrhyw un arall sydd â budd yn yr eiddo cyn bod modd cynnig cytundeb taliadau gohiriedig.

Wedyn bydd angen i bob perchennog lofnodi'r cytundeb Pridiant Cyfreithiol. Os bydd cyd-berchnogion, bydd angen iddyn nhw gytuno i beidio â gwrthwynebu i werthu'r eiddo at ddiben ad-dalu'r swm sy'n ddyledus i'r Cyngor.

Bydd y Cyngor hefyd yn cael caniatâd tebyg i godi tâl yn erbyn yr eiddo gan unrhyw un arall sydd â budd yn yr eiddo.

Rhaid i'r eiddo fod wedi'i gofrestru â'r Gofrestrfa Tir cyn bod modd cynnig cytundeb taliadau gohiriedig. Perchennog/perchnogion yr eiddo sy'n gyfrifol am ei gofrestru a thalu'r holl ffioedd cysylltiedig.

Cynnal a chadw'r eiddo sydd wedi'i ddiogelu, ei yswirio a'i ddefnyddio

Yr unigolyn, neu'i gynrychiolydd cyfreithiol, fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo dan sylw yn cael ei gynnal a'i gadw, a'i yswirio, tra bod y cytundeb ar waith.

Rhaid i'r unigolyn neu'i gynrychiolydd cyfreithiol ofyn am ganiatâd y Cyngor:

- Ynglŷn â'r ffordd y caiff yr eiddo ei ddefnyddio tra bod y cytundeb ar waith
- Cyn caniatáu i unrhyw unigolyn fyw yn yr eiddo tra bod y cytundeb taliadau gohiriedig ar waith.

Cyfraddau Llog

Yn unol â chaniatâd Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn codi'r cyfradd llog cenedlaethol uchaf, sef 0.15% yn uwch na'r "cyfradd perthnasol". Bydd y cyfradd perthnasol yn newid bob 6 mis ar 1 Ionawr a 1 Mehefin. Nod hyn yw olrhain y newidiadau yn y farchnad sydd wedi'u nodi yn adroddiad diweddaraf Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Ar hyn o bryd, caiff yr adroddiad yma ei gyhoeddi yn y: *Rhagolwg Economaidd a Chyllidol. Fel arfer caiff hwn ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn ynghŷd â'r Gyllideb a Datganiad yr Hydref.* Bydd y llog a gaiff ei godi a'i ychwanegu at y swm sydd wedi'i ohirio yn adlog, a bydd e'n cynyddu hyd nes i'r gost gael ei thalu.

Tâl Weinyddol a Ffïoedd Cyfreithiol

Mae modd ychwanegu'r costau a'r ffioedd gweinyddol at swm y taliad gohiriedig wrth iddyn nhw gynyddu, ar gais yr unigolyn. Serch hynny, mae modd i'r unigolyn eu talu ar wahân hefyd pe hoffai e wneud hynny. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi rhestr o daliadau a ffïoedd gweinyddol sy'n berthnasol ar gyfer taliadau gohiriedig.

Bydd y costau yma yn talu'r costau sefydlu a'r costau parhaus sydd angen i'r Cyngor eu talu. Mae hyn yn cynnwys:

- cofrestru pridiant cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir yn erbyn teitl yr eiddo; gan gynnwys taliadau chwilio'r Gofrestrfa Tir ac unrhyw wiriadau hunaniaeth sydd eu hangen;
- cynnal gwaith postio, argraffu a telegyfathrebu perthnasol;
- cost yr amser a gafodd ei dreulio gan y rheiny oedd yn darparu'r cytundeb
- cost y gwerthusiad ac ail-werthusiad yr eiddo;
- costau ar gyfer cael gwared ar daliadau yn erbyn yr eiddo

Caiff y taliadau yma eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae modd canfod y taliadau ar gyfer 2019/20 ar waelod y daflen ffeithiau yma.

Gwerthusiadau

Os bydd unigolyn yn bwriadu diogelu ei daliad gohiriedig yn erbyn ei fudd mewn eiddo, bydd y Cyngor yn cael gafael ar werthusiad o'r eiddo. Caiff costau gwerthuso eiddo rhesymol eu hanfon at yr unigolyn yn rhan o'r costau gweinyddol. Bydd y Cyngor hefyd yn codi tâl am roi cytundeb ar waith. Mae modd i'r unigolyn wneud cais am asesiad annibynol o werth yr eiddo (yn ogystal â gwerthusiad y Cyngor). Os bydd asesiad annibynnol yn nodi gwahaniaeth sylweddol rhyngddo ef a gwerthusiad y Cyngor, bydd y Cyngor a'r unigolyn yn trafod ac yn cytuno ar werthusiad priodol cyn bwrw ymlaen â'r cytundeb.

Dod i Gytundeb

Unwaith y bydd y Cyngor a'r unigolyn wedi dod i gytundeb mewn egwyddor, bydd y Cyngor yn darparu cytundeb taliadau gohiriedig. Bydd hwn ar ffurf contract cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

Os bydd unigolyn yn cytuno i lofnodi cytundeb taliadau gohiriedig, dylai cytundeb terfynol gael ei lunio a'i roi ar waith cyn i'r unigolyn ddechrau derbyn gofal ac, yn bendant, cyn diwedd cyfnod anwybyddu'r eiddo (12 wythnos) a gaiff ei ddarparu gan Bolisi Codi Tâl Preswyl y Cyngor.

Bydd y cytundeb taliadau gohiriedig yn cynnwys yr holl delerau ac amodau a'r wybodaeth berthnasol er mwyn galluogi'r unigolyn neu ei gynrychiolydd i weithredu ei hawliau a'i oblygiadau o dan y cytundeb.

Bydd yn cynnwys trafod y canlynol:

- Manylion y pridiant cyfreithiol y bydd y Cyngor yn ei osod yn erbyn yr eiddo er mwyn diogelu'r ddyled
- Gwybodaeth am gostau blynyddol
- Sut y caiff llog ei gyfrifo
- Sut mae modd i'r naill barti neu'r llall ddod â'r cytundeb i ben
- Manylion y datganiad dyledion bob chwe mis
- Y gofyniad i gael caniatâd y Cyngor cyn caniatáu i unrhyw un fyw yn yr eiddo

Dylech chi fod yn effro i'r ffaith bod 14 diwrnod ar gael i ddarllen ac ystyried y cytundeb. Mae hyn yn cynnwys amser i'r unigolyn wneud ymholiadau ynglŷn ag unrhyw gymalau a thrafod y cytundeb ymhellach gyda'r Cyngor.

Does dim modd atgyfeirio costau gofal nes bod cytundeb taliadau gohiriedig y cyngor wedi'i lofnodi neu'i gadarnhau gan yr unigolyn sydd angen derbyn gofal, neu'i gyrychiolydd.

Caiff diweddariadau ysgrifenedig eu darparu pob 6 mis sy'n nodi swm y costau gofal sydd wedi'u gohirio a'r llog a'r costau gweinyddol sydd wedi'u codi hyd yma. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y cyfanswm tybiannol sy'n ddyledus ac amcangyfrifiad o'r ecwiti sy'n weddill yn yr eiddo sydd ddim wedi'i gwmpasu gan y swm sydd wedi'i ohirio. Bydd y Cyngor hefyd yn darparu datganiad i'r unigolyn ar gais o fewn 28 diwrnod.

Bydd y diweddariad yn nodi'r swm sydd wedi'i ohirio yn ystod y cyfnod blaenorol, yn ogystal â chyfanswm y swm sydd wedi'i ohirio hyd yma. Bydd e hefyd yn cynnwys rhagolwg o ba mor gyflym y bydd y swm angenrheidiol sydd wedi'i ohirio yn gadael y cyfyngiad cyfalaf yn unig ar gyfer yr eiddo (does dim modd gohirio rhagor o daliadau yn erbyn yr eiddo ar ôl hyn). Caiff gwerth yr eiddo dan sylw a gaiff ei ddefnyddio fel sicrwydd ei ailasesu unwaith i'r swm sydd wedi'i ohirio godi i fwy na 50% o'r sicrwydd (ac fesul cyfnod ar ôl hyn). Caiff y swm yma ei ystyried yn erbyn lefel cyfyngiad y cyfalaf er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn meddu ar o leiaf y cyfyngiad cyfalaf ar gyfer ei eiddo.

Amgylchiadau lle bydd modd i ni roi'r gorau i ohirio costau gofal

Yn ogystal â hynny, mae rhai amgylchiadau penodol lle bydd y Cyngor o bosibl yn gwrthod gohirio rhagor o daliadau gofal ar gyfer unigolyn sydd â chytundeb taliadau gohiriedig. Mae'n bosibl y bydd hyn yn fater parhaol neu'n fater dros dro, gan ddibynnu ar y rheswm dros y penderfyniad a ph'un a yw'r newid yn amgylchiadau'r unigol yn fater parhaol neu dros dro. Fydd y Cyngor ddim yn gofyn am ad-daliad o'r swm sydd wedi'i ohirio yn ei gyfanrwydd o dan yr amgylchiadau yma, a bydd y gwaith o ad-dalu'r swm yn parhau i fod yn amodol ar yr amodau arferol ar gyfer dod â chytundeb i ben.

Bydd y Cyngor yn rhybuddio unigolion ymlaen llaw y bydd unrhyw daliadau gohiriedig yn dod i ben, ac yn nodi sut mae angen i'r unigolyn dalu ei gostau gofal yn y dyfodol.

Yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau ariannol, efallai y bydd gofyn i'r unigolyn fodloni ei gostau gofal (naill ai yn eu cyfanrwydd neu'n rhannol) o'i incwm asesiedig wythnosol, os bydd hynny yn fwy na'r isafswm incwm, neu o unrhyw gynilon sydd gydag ef sy'n uwch na'r cyfyngiad cyfalaf.

Bydd y Cyngor dim ond yn defnyddio'r grym yma i ddod â chytundeb taliadau gohiriedig i ben ar ôl ystyried effaith y penderfyniad yma ar amgylchiadau ariannol yr unigolyn yn ogystal â'i ddyletswyddau i ddiwallu anghenion cymdeithasol asesiedig yr unigolyn.

Terfynu'r Cytundeb:

Mae modd terfynu cytundeb taliadau gohiriedig mewn tair ffordd:

1) Ar unrhyw adeg gan yr unigolyn neu'i gynrychiolydd ariannol drwy ad-dalu'r costau gofal sy'n weddill (gan gynnwys unrhyw log a chostau gweinyddol sy'n weddill) yn eu cyfanrwydd. Dylai'r Cyngor gael hysbysiad ysgrifenedig gan yr unigolyn neu'i gynrychiolydd ariannol ynglŷn â'i fwriad. Bydd y Cyngor wedyn yn gollwng y costau yn erbyn yr eiddo wrth dderbyn y swm sy'n ddyledus yn ei gyfanrwydd.
2) Pan fo'r eiddo wedi'i werthu a'r awdurdod wedi derbyn ad-daliad. Os bydd defnyddiwr y gwasanaeth yn penderfynu gwerthu ei eiddo, dylai e roi gwybod i'r Cyngor yn ystod y broses werthu. Bydd gofyn iddo e dalu'r swm sy'n ddyledus yn ei gyfanrwydd gyda'r elw o'r gwerthiant, a bydd y Cyngor yn gollwng y tâl yn erbyn yr eiddo.
3) Pan mae defnyddiwr y gwasanaeth yn marw ac mae'r swm yn cael ei ad-dalu i'r awdurdod lleol allan o'i ystâd.

Pan fydd y cytundeb yn cael ei derfynu, rhaid talu'r swm sy'n ddyledus i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd er mwyn talu'r holl gostau sy'n ddyledus o dan y cytundeb. Bydd yr unigolyn (neu'r trydydd parti priodol) yn cael dadansoddiad llawn o sut y cafodd y swm sy'n ddyledus ei gyfrifo.

Unwaith i'r swm gael ei dalu, bydd y Cyngor yn darparu cadarnhad o hynny i'r unigolyn neu'r trydydd parti priodol. Bydd e hefyd yn cadarnhau bod y tâl yn erbyn yr eiddo wedi'i ddileu (os yw hynny'n briodol).

Terfynu cytundeb yn dilyn marwolaeth unigolyn

Rhaid i'r Cyngor naill ai dderbyn taliad gan yr ystâd neu gan drydydd parti. Mae modd i deulu'r unigolyn neu drydydd parti dalu'r hyn sy'n ddyledus i'r Cyngor mewn ffordd arall pe hoffen nhw wneud hynny, fel bod modd osgoi gwerthu'r eiddo a oedd yn destun sicrwydd ar gyfer y cytundeb taliadau gohiriedig. Os byddan nhw'n dewis gwneud hyn, bydd y Cyngor yn derbyn taliad mewn dull arall, cyn belled a'i fod yn talu'r swm sy'n ddyledus yn ei gyfanrwydd.

Bydd y Cyngor yn aros o leiaf bythefnos yn dilyn marwolaeth yr unigolyn cyn anfon dadansoddiad llawn o'r cyfanswm a gafodd ei ohirio at yr ysgutor (fodd bynnag, mae modd i aelod o'r teulu neu'r ysgutor gysylltu â ni i ddatrys y mater cyn i ni wneud hyn).

Ysgutor yr ewyllus fydd yn gyfrifol am drefnu i ad-dalu'r swm sy'n ddyledus (os bydd y taliad yn dod allan o ystâd yr unigolyn). Bydd y llog yn parhau i gynyddu ar y swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ar ôl i'r unigolyn farw, hyd nes i'r swm gael ei ad-dalu yn ei gyfanrwydd.

Os bydd y cytundeb yn cael ei derfynu o ganlyniad i farwolaeth yr unigolyn, bydd y swm sy'n ddyledus i'r Cyngor o dan y cytundeb taliadau gohiriedig yn ddyledus 90 diwrnod ar ôl ei farwolaeth. Yn dilyn y cyfnod yma o 90 diwrnod, os byddwn ni'n teimlo bod dim ymdrech yn cael ei wneud i dalu'r ddyled, er enghraifft os dydy'r tŷ ddim wedi'i roi ar y farchnad a'n bod ni wedi ceisio datrys y sefyllfa, (neu os bydd y Cyngor o'r farn bod yr ysgutor yn gwneud ymdrech fwriadol i atal yr eiddo rhag cael ei werthu) yna bydd y Cyngor o bosibl yn cymryd camau cyfreithiol er mwyn adennill y ddyled.

Adolygiadau a Chwynion

Os bydd y Cyngor wedi gwrthod caniatáu cytundeb taliadau gohiriedig, mae gan yr ymgeisydd neu'i gynrychiolydd hawl i ofyn am adolygu'r penderfyniad.

Os nad yw unigolyn yn hapus gyda phenderfyniad y Cyngor, bydd modd iddo wneud cwyn ffurfiol am hynny i'r Cyngor, a gaiff ei ystyried drwy weithderfn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Does dim digon o wybodaeth ar y daflen yma. Ble gallaf gael ragor?

Mae gan y Cyngor linell gymorth er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor. Croeso i chi ffonio'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu anfonwch lythyr i'r Uned Taliadau, Bloc 5, Tŷ Bronwydd, Bronwydd Avenue, y Porth, CF39 9DL.

Dylech chi anfon unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â chais am daliadau gohiriedig i'r cyfeiriad uchod.

Ble mae modd cael cyngor ariannol annibynnol?

Rydyn ni'n gwybod bod modd i'r gwaith o gynllunio ar gyfer eich anghenion o ran gofal a chymorth yn y dyfodol fod yn gymhleth, a bod cyllid yn ddrud. Mae'n bosibl y bydd hi'n ddefnyddiol i chi gymryd cyngor proffesiynol, fel bod modd i chi (a'ch teulu) ganfod yr ateb mwyaf addas a chost-effeithlon i'ch problemau.

Mae nifer fawr o sefydliadau a fydd yn darparu cyngor am ddim ynglŷn ag ariannu gofal a chymorth. Dyma fan cychwyn da os ydych chi'n chwilio am wybodaeth ac yn awyddus i wybod pa opsiynau sydd ar gael.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Ffôn: 0800 138 7777
https://www.moneyadviceservice.org.uk/

Age Cymru
Ffôn – Llinell Gymorth 08000 223 444
http://www.ageuk.org.uk/cymru/

Cyngor ar Bopeth
Ffôn - Llinell Gymorth 034554 04 05 06
https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

Mae modd gweld yr wybodaeth yma mewn fformatiau eraill hefyd
(Saesneg, print bras, Braille ac ieithoedd eraill)

Er mwyn rhoi sylwadau am y ffeithlen yma neu am unrhyw wybodaeth arall a baratowyd gan y gwasanaethau cymdeithasol,

cysylltwch â **gwasanaethaucymdeithasol@rhondda-cynon-taf.gov.uk**.

Ewch i: www.rctcbc.gov.uk/adultsandolderpeople